Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Amser Gweithredu

Adroddiad yn edrych ar effaith galwadau diangen yng Nghymru








# Crynodeb Gweithredol

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm y digwyddiadau yr ymatebodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru iddynt. O graffu'n fanylach, fodd bynnag, mae data digwyddiadau'r Gwasanaeth Tân yn dangos 28% o ostyngiad yng nghyfanswm y digwyddiadau, ond dim ond 13% o ostyngiad yn nifer y galwadau diangen.[1] Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif resymau dros yr holl alwadau diangen y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymateb iddynt. Mae hefyd yn nodi bod cyfran helaeth o'r galwadau hyn yn deillio o systemau larymau tân awtomatig, a'u bod yn cael eu hachosi'n bennaf gan gyfarpar.

Mae ymateb i alwadau diangen yn wastraff llwyr ar adnoddau'r Gwasanaeth Tân. Amcangyfrifir bod y galwadau hyn yn cynhyrchu tua £3m y flwyddyn o gostau uniongyrchol yng Nghymru, yn ogystal â chostau cyfle o ganlyniad i ymrwymo criw ac injan dân a allai gael ei defnyddio i gyflawni dyletswyddau eraill. Mae galwadau diangen hefyd yn arwain at gostau i berchnogion a deiliaid yr adeiladau sy'n cael eu heffeithio – costau yr amcangyfrifir eu bod yn £29m y flwyddyn. Mae angen i bawb sy'n gysylltiedig â hyn weithredu ar unwaith. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion, gan gynnwys y canlynol:

- Gall y Gwasanaethau Tân ac Achub leihau galwadau diangen mewn nifer o ffyrdd y profwyd eu bod yn gweithio. Amlinellir y ffyrdd hyn yn yr adroddiad hwn. Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub eu hystyried fel rhan o'u strategaethau i leihau galwadau diangen, a dylent eu mabwysiadu lle bynnag y bo modd.

- Mae nifer o sectorau allweddol sy'n cyfrannu tuag at nifer uchel y galwadau diangen: Iechyd, Addysg a Manwerthu. Gall perchnogion a rheolwyr adeiladau yn y sectorau hyn gymryd camau syml i leihau galwadau diangen a'r costau a'r anhwylustod a achosir ganddynt. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddod ag aelodau allweddol o'r sectorau hyn at ei gilydd i edrych ar y materion sy'n achosi'r nifer uchel o alwadau bob blwyddyn, galw am adolygiad radical o'r dulliau gweithredu presennol, a helpu i gryfhau'r bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a'r sectorau hyn.

- Gall Llywodraeth Cymru hefyd helpu'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb i leihau nifer y galwadau diangen, ynghyd â chydgysylltu dull gweithredu ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliadau a nodwyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi'r nifer uchel o alwadau diangen. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd bwysleisio'r angen i fynd i'r afael â nifer uchel y galwadau diangen yn y Fframwaith Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub. Er hyn, mae rôl Llywodraeth Cymru'n gyfyngedig ac mae'r cyfrifoldeb pennaf ar ysgwyddau'r Gwasanaethau Tân a pherchnogion a deiliaid eiddo lle mae'r galwadau diangen hyn yn digwydd.

[1] Data digwyddiadau StatsCymru

OGL ISBN digidol 978 1 4734 3441 7 © Hawlfraint y Goron 2015 WG23506

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru a llawer o sefydliadau eraill yn cydnabod bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn chwarae rôl bwysig iawn drwy atal digwyddiadau, diogelu ac ymateb i argyfyngau. Mae sicrhau diogelwch a lles dinasyddion Cymru a diogelu eiddo yn flaenoriaeth bwysig.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub sydd yng Nghymru'n wynebu llawer o heriau o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a newidiadau o ran risgiau.

Un o'r meysydd sy'n achosi pryder yw Galwadau Diangen. Mewn llawer o achosion maent yn cael eu gweld fel defnydd diangen o adnoddau ymateb i argyfwng, a phan fydd y Gwasanaeth Tân yn ymateb iddynt maent yn achosi risg ddiangen. Er mwyn cynorthwyo'r Awdurdodau Tân ac Achub i fynd i'r afael â'r mater hwn comisiynodd Llywodraeth Cymru brosiect i edrych ar y materion penodol sy'n ymwneud â galwadau diangen.

Mae gan y prosiect galwadau diangen ddau amcan penodol. Yn gyntaf, edrych ar y materion sylfaenol sy'n gysylltiedig â nifer uchel y galwadau diangen yng Nghymru ac yn ail, cysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn trafod y materion a nodi'r dewisiadau a allai gael effaith gadarnhaol drwy leihau effaith galwadau diangen ar y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac ar y sefydliadau y mae'r broblem hon yn effeithio arnynt.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif faterion sy'n arwain at nifer uchel o alwadau diangen yng Nghymru ac yn nodi'r dewisiadau amrywiol er mwyn lleihau effaith galwadau diangen sydd ar gael i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac i ddeiliaid/perchnogion adeiladau.

## Cefndir

Yn 2013/14 roedd tua 40% o'r holl ddigwyddiadau yr ymatebodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru iddynt yn alwadau diangen. Ym mhob un o'r tri Gwasanaeth, roedd hyn yn fwy na nifer y gwir danau yr ymatebodd y Gwasanaeth iddynt. Mae ymatebion o'r fath yn achosi costau sylweddol i'r Gwasanaeth ac i'r eiddo dan sylw, ac maent yn gwbl ddi-fudd. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ellid gwneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau hyn.




## Beth yw Galwad Ddiangen?

Mae galwad ddiangen yn ddigwyddiad lle mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn anfon injan dân i ddiffodd tân posibl neu ymdrin â digwyddiad arall, ac yn darganfod ar ôl cyrraedd yno bod yr hysbysiad wedi'i wneud â bwriad maleisus, neu â bwriadau da, neu wedi'i achosi gan system awtomatig, ac nad oedd tân na digwyddiad arall i'r Gwasanaeth ddelio ag ef yn y diwedd.

# Mathau o Alwadau Diangen

**Galwadau Diangen Maleisus** – galwadau sy'n cael eu gwneud â'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i ymateb i ddigwyddiad yn gysylltiedig â thân y gwyddai'r sawl a wnaeth yr alwad nad oedd yn bodoli.

**Galwadau Diangen â Bwriad Da** – galwadau sy'n cael eu gwneud â phob ewyllys da mewn ymdrech i alw'r gwasanaeth tân ac achub i ymateb i dân y credid ei fod yn bodoli, ond nad oedd mewn gwirionedd.

**Galwadau Diangen oherwydd Cyfarpar/Offer** – galwadau sy'n cael eu hachosi gan larymau tân ac offer diffodd tân sy'n cael eu defnyddio (gan gynnwys larymau sy'n cael eu hysgogi'n ddamweiniol gan bobl).

Y math sy'n cyfrannu fwyaf at y broblem, o bell ffordd, yw galwadau diangen oherwydd offer (systemau larymau tân fel arfer). Y gred, ers rhai blynyddoedd bellach, yw bod systemau awtomatig yn cael eu gosod mewn adeilad er mwyn rhybuddio pobl sydd i mewn yn yr adeilad, a chysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Er bod llawer o'r systemau hyn yn rhybuddio'r Gwasanaeth Tân, nid yw'n ofyniad cyfreithiol mewn gwirionedd.

Yn wir, gall systemau o'r fath fod yn gwbl ddi-fudd os nad ydynt yn cael eu rheoli'n briodol. Gellir defnyddio gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y gorffennol i nodi achosion lle mae galwadau brys a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Tân wedi deillio o systemau larymau tân awtomatig, ac wedi bod yn ddigwyddiadau go iawn lle roedd angen i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymyrryd. Mae hyn yn dangos bod llai na 5%[2] o'r galwadau larymau tân awtomatig yr ymatebodd y Gwasanaethau Tân yng Nghymru iddynt yn alwadau i ddigwyddiadau lle'r oedd angen i griwiau tân gymryd rhyw fath o gamau i ddiffodd tân. Felly roedd tua 95% o'r galwadau a oedd yn deillio o systemau larymau tân awtomatig yn alwadau lle na fu'n rhaid i'r Gwasanaeth Tân wneud dim.

Mewn llawer o achosion y dull rhybuddio a ddefnyddir yw gosod system larwm awtomatig yn yr eiddo sy'n cael ei ddiogelu. Mae'r systemau hyn yn cynnwys synwyryddion neu bwyntiau torri gwydr â llaw, a phan fydd rhywbeth yn eu gwneud yn weithredol byddant yn hysbysu'r Gwasanaeth Tân, a fydd wedyn yn penderfynu a ddylid anfon injan dân i ymateb i'r alwad. Gan fod y broses hon yn un awtomatig i raddau helaeth, yn aml iawn ni fydd neb wedi archwilio'r safle cyn i'r injan dân gyrraedd yno. Galwadau sy'n deillio o'r mathau hyn o systemau sy'n achosi'r rhan fwyaf o'r galwadau diangen y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymateb iddynt, a dyma lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer gwelliannau.



Mae galwad ddiangen oherwydd offer yn digwydd felly pan mae rhywbeth yn ysgogi'r larwm er nad oes yno dân go iawn. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys:

- mwg wrth goginio (e.e. tôst yn llosgi);
- stêm (e.e. ystafelloedd cawodydd, prosesau diwydiannol);
- deunyddiau sy'n mygu (e.e. sigaréts, matsis, canhwyllau ac arogldarthau);

[2] Ffynhonnell: Cais data Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi StatsCymru

- chwistrelli aerosol;
- gwaith poeth ar ôl torri a weldio;
- llwch yn crynhoi (cadw tŷ gwael, diffyg mesurau ataliol ar gyfer gwaith llychlyd fel drilio);
- lleithder a newid tymheredd;
- difrod damweiniol neu faleisus i bwynt 'Torri Gwydr'; a
- gwaith profi neu gynnal a chadw, lle nad oes proses i reoli'r gwaith, neu lle na ddilynwyd proses reoli.

# Maint y Broblem

Mae galwadau diangen wedi bod yn broblem i Wasanaethau Tân ac Achub y Deyrnas Unedig ers blynyddoedd. Oherwydd y dirywiad economaidd, ac ad-drefnu adnoddau yn dilyn hynny, mae llawer o Wasanaethau Tân ac Achub yn rhoi mwy o bwyslais erbyn hyn ar leihau galwadau diangen.

O ran costau, mae Cymdeithas y Diwydiant Tân yn amcangyfrif bod galwadau diangen yn costio hyd at £1 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig,[3] ac er mai rhan yn unig o'r costau hyn sy'n berthnasol i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, mae'r symiau'n sylweddol.

I ddeiliaid eiddo, gall galwadau diangen achosi costau y gellid eu hosgoi yn sgil:

- colli cynhyrchiant;
- safleoedd manwerthu'n colli cwsmeriaid, pan fo cwsmeriaid yn cael eu hanfon allan ond ddim yn dychwelyd;
- amharu ar weithgareddau, o ganlyniad i anfon staff allan;
- posibilrwydd y codir tâl yn y dyfodol am alw'r Awdurdodau Tân ac Achub;
- premiymau yswiriant uwch.

Yn yr un modd, gall galwadau diangen achosi costau y gellid eu hosgoi i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn sgil:

- costau staff ar gyfer diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y system ar ddyletswydd yn ôl y galw;
- tanwydd ar gyfer injan dân sy'n cael ei hanfon i ymateb i alwad ddiangen, a thraul cysylltiedig ar yr offer.

Mae yna hefyd gostau cyfle: nid yw criw ac injan dân sy'n cael ei hanfon i ymateb i alwad ddiangen ar gael i ymateb i ddigwyddiadau eraill, neu ar gyfer dyletswyddau eraill fel hyfforddiant. Mae galwadau diangen hefyd yn amharu ar fusnesau a chymunedau, gan achosi gofid diangen a cholled ariannol. Maent hefyd yn cynyddu'r risg y bydd diffoddwyr tân a phobl eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd yn cael damwain neu anaf pan fydd cerbydau'n ymateb mewn argyfwng.


[3] Cymdeithas y Diwydiant Tân, Cut False Alarm Costs 2013

Mae'r rhesymau dros y gostyngiad yng nghyfanswm yr argyfyngau yr ymatebwyd iddynt gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ystod y deng mlynedd diwethaf yn amrywio o newidiadau technolegol neu gymdeithasol i ymyriadau a gwaith wedi'i dargedu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

## Y sefyllfa yng Nghymru

Mae'r tabl yn dangos nifer y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt gan Wasanaethau Tân ac Achub Cymru a'r rhai hynny a oedd yn alwadau diangen. Yn y cyfnod o 10 mlynedd rhwng 2004/05 a 2013/14 mae cyfanswm y digwyddiadau yr ymatebodd y Gwasanaethau Tân ac Achub iddynt wedi gostwng tua 28% tra mae nifer y galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt wedi gostwng 13% yn unig. Fodd bynnag, mae nifer y galwadau diangen wedi bod yn amrywio bob blwyddyn, ac mae'r gostyngiad cyffredinol a welwyd wedi bod yn fach iawn.

## Yr Holl Ddigwyddiadau/Galwadau Diangen yr ymatebwyd iddynt rhwng 2004/5 a 2013/14





Ffynhonnell: StatsCymru/tanau, digwyddiadau gwasanaeth arbennig a galwadau diangen mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru wedi ymateb iddynt

Fel llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'n wynebu heriau ariannol, ac mae'n ddyletswydd arnynt i edrych ar bob cyfle i fod yn fwy effeithlon. Os gellir sicrhau mwy fyth o ostyngiad yn nifer y galwadau diangen yr ymdrinnir â hwy yng Nghymru dros gyfnod, bydd llai o bwysau ar y Gwasanaeth Tân ac Achub a bydd modd ad-drefnu ei asedau a chyfeirio adnoddau tuag at ymateb mwy cynhyrchiol a thasgau ataliol. Gall lleihau galwadau diangen arwain at fanteision eraill hefyd, er enghraifft sicrhau nad yw adnoddau gweithredol yn cael eu clymu pan allent fod ar gael ar gyfer galwadau lle mae bywydau mewn perygl.

Mae'r proffil 10 mlynedd ar gyfer yr holl alwadau diangen yng Nghymru[4] yn dangos gostyngiad cadarnhaol yn nifer y galwadau diangen maleisus, ond mae galwadau â bwriad da a'r rhai sy'n cael eu hachosi gan gyfarpar wedi aros yn gymharol sefydlog. Mae'r rhan fwyaf o'r galwadau diangen yng Nghymru'n cael eu hachosi gan offer larymau tân awtomatig, a chamau i fynd i'r afael â'r galwadau hyn sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf cadarnhaol o ran gostwng y niferoedd. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad uniongyrchol â'r gostyngiadau cyfartalog mewn Gwasanaethau Tân eraill y tu allan i Gymru sydd, mewn llawer o achosion, wedi gweld gostyngiadau o 40% a mwy ar gyfer yr holl alwadau diangen.

## Dadansoddiad o'r galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt gan Wasanaethau Tân ac Achub Cymru




[4] Ffynhonnell: StatsCymru/yr holl alwadau diangen mae Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru wedi ymateb iddynt

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf gwelwyd rhywfaint o ostyngiad cadarnhaol yn nifer y galwadau diangen, yn enwedig galwadau maleisus, sydd wedi gostwng tua 63% yn y 10 mlynedd diwethaf. Er hyn, yn yr un cyfnod, dim ond gostyngiad o 10% a welwyd yn nifer y galwadau diangen oherwydd cyfarpar, ac mae'n amlwg bod angen gwneud llawer mwy i fynd i'r afael â'r rhain.

## Costau sy'n Gysylltiedig â Galwadau Diangen yng Nghymru

Yn aml iawn, mae'n anodd dweud faint yn union fydd y costau i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gan fod cynifer o newidynnau, er enghraifft costau yn gysylltiedig â rolau, defnyddio tanwydd a thraul ar yr injan dân. Roedd un adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi y gallai cost uned rhybudd tân diangen (galwad ddiangen) fod o gwmpas £300 yr alwad.[5] Drwy ddefnyddio'r gost hon gallwn greu trosolwg rhesymol o'r effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â galwadau diangen y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymateb iddynt.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'n fras y costau i Awdurdodau Tân ac Achub Cymru (ar sail £300 yr alwad) o ganlyniad i ymateb i alwadau diangen a achoswyd gan gyfarpar yn y cyfnod blaenorol o 5 mlynedd.

| Blwyddyn | Galwadau diangen oherwydd cyfarpar* | Cost flynyddol ar sail £300 yr alwad yn ôl prisiau 2014 |
|---|---|---|
| 2009/10 | 11147 | £3.53m |
| 2010/11 | 10282 | £3.21m |
| 2011/12 | 10024 | £3.12m |
| 2012/13 | 10181 | £3.08m |
| 2013/14 | 9805 | £2.94m |

* Dylid nodi bod y ffigurau uchod yn ymwneud â galwadau diangen a achoswyd gan gyfarpar yn unig ac nad ydynt yn adlewyrchu cyfanswm y galwadau diangen.

Mae'r data yn y siart yn dangos yn glir y gallai camau wedi'u targedu er mwyn lleihau nifer y galwadau diangen sy'n cael eu hachosi gan offer diffygiol yn unig, neu gan ysgogiadau diangen, arwain at ostyngiad o dros £3m y flwyddyn mewn costau; mae'r swm hwn yn cyfateb i 83 swydd diffoddwr tân amser llawn.

Er bod y costau i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru'n sylweddol, mae effeithiau ariannol hefyd ar y sefydliadau y mae galwadau diangen yn effeithio arnynt, er enghraifft mae amser segur diangen yn arwain at golli cynhyrchiant.

[5] Achosion galwadau diangen i adeiladau Papur briffio BRE 2014

Roedd adroddiad a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) ac Awdurdod Tân ac Achub Swydd Buckingham a Milton Keynes yn amcangyfrif bod pob galwad ddiangen yn costio tua £2,900 i fusnes[6].

Pe bai'r ffigur hwn yn cael ei gymhwyso i alwadau diangen a achoswyd gan offer mewn adeiladau dibreswyl, amcangyfrifir y byddai'n dangos **cost o tua £28m i fusnesau yng Nghymru, a hynny yn 2013/14 yn unig**.

## Amser sy'n cael ei Wastraffu oherwydd Galwadau Diangen

Pan fo larwm tân yn cael ei ysgogi, a hynny'n arwain at alwad ddiangen, mae'n effeithio ar ddeiliaid yr eiddo dan sylw ac ar y Gwasanaeth Tân ac Achub. Gall gymryd llawer iawn o amser i wagu adeilad yn ddiangen ac mae'n arwain at amser segur.

Ar ôl i'r Gwasanaeth Tân ac Achub gyrraedd y safle i wneud y gwiriadau angenrheidiol a chadarnhau bod yr alwad yn un ddiangen, rhaid i'r bobl sydd wedi cael eu hel allan o'r adeilad fynd yn ôl at eu gwaith. Gall pob galwad ddiangen olygu 0.5 awr o amser wedi'i golli ar gyfer pob diffoddwr tân.

Gallwn weld yr effaith y mae galwadau diangen yn ei gael o ran amser drwy gyfrifo cyfanswm y galwadau diangen (heb gynnwys galwadau maleisus). Roedd y cyfanswm hwn, ar gyfer y flwyddyn 2013/14, yn 14,655 o alwadau[7]. Bob tro y mae larwm tân yn canu, mae adeilad yn cael ei wagu, ac mae hynny'n golygu cyfnodau segur lle nad oes dim byd yn digwydd i berchennog/deiliad yr eiddo.

Gall amser sy'n cael ei wastraffu oherwydd galwadau diangen olygu bod llawer llai o amser ar gael i wneud gwaith ataliol hanfodol ac, yn bwysicach fyth, gall effeithio ar argaeledd, hynny yw ni fyddai criw o ddiffoddwyr tân ar gael i ymdrin ag argyfwng go iawn a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Er mwyn egluro'r pwynt hwn, cymerwch fod y Gwasanaeth Tân ac Achub fel arfer yn gweithredu â chriw o 5 ar bob injan dân. Os lluoswn hyd yr alwad ddiangen gyfartalog (ymateb ac ymdrin â'r digwyddiad) [0.5 awr] â 5 gallwn ragdybio 2.5 awr ar gyfer pob galwad ddiangen. Gan ddefnyddio data 2013/14 (14,655 heb gynnwys galwadau maleisus) mae hyn yn cyfateb i dros 36,000 awr o amser cynhyrchiol mewn blwyddyn yn unig. Byddai'n fwy buddiol, er enghraifft, i'r amser hwn gael ei ddefnyddio'n gwneud gweithgareddau ataliol sy'n diogelu rhag tân.

---

[6] Achosion galwadau diangen i adeiladau papur briffio BRE 2014
[7] Ffynhonnell StatsCymru

Mae goblygiadau eraill sy'n gysylltiedig â nifer fawr y galwadau diangen. Er enghraifft, mae Awdurdodau Tân ac Achub Cymru'n cyflogi tua 2,000 o ddiffoddwyr tân wrth gefn neu 'ar alwad'. Bob tro y gelwir arnynt i ymateb i ddigwyddiad yn ystod amser gwaith, rhaid iddynt adael eu cartref neu eu gweithle arferol. Er bod cyflogwyr diffoddwyr tân ar alwad yn cefnogi gweithwyr sy'n gadael y gweithle er mwyn achub bywydau ac ymdrin ag argyfyngau, byddai'r sefyllfa'n wahanol pe baent yn gadael eu gwaith oherwydd galwadau diangen, yn enwedig mewn eiddo â nifer uchel o larymau o'r fath.

## Risgiau Ychwanegol

Pan fydd injan dân yn ymateb i ddigwyddiad mae'n gwneud hynny fel arfer ar gyflymder llawer mwy na chyflymder ffordd arferol. Mae teithio ar gyflymder uchel er mwyn cyrraedd argyfwng yn hanfodol er mwyn lleihau'r amser rhwng yr alwad a'r ymyriad. Fodd bynnag, mae teithio ar gyflymder uchel ar briffyrdd cyhoeddus hefyd yn achosi risgiau ychwanegol i ddiffoddwyr tân yn ogystal â cherddwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd. Mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd wrth i injan dân sy'n ymateb i ddigwyddiad y credir ei fod yn argyfwng fod mewn gwrthdrawiad â cherbyd arall, neu fynd ar draws rhywun sy'n cerdded. Mewn rhai achosion daeth yn amlwg yn ddiweddarach fod yr injan dân yn ymateb i alwad ddiangen.



Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â gyrru injan dân i ddigwyddiad ar gyflymder uchel a chael damwain lle mae defnyddwyr ffyrdd neu gerddwyr diniwed yn cael eu hanafu neu eu lladd yn annerbyniol, a dylid ystyried pob ffordd o sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Mae dyletswydd foesol ar bawb sy'n ymwneud â lleihau nifer y galwadau diangen i chwarae ei ran a lleihau'r risg annerbyniol hon.


## Cynnydd wrth Leihau Galwadau Diangen

Wrth geisio lleihau nifer y galwadau diangen yng Nghymru, gall y Gwasanaethau Tân ddysgu gwersi gan rannau eraill o'r gymuned Gwasanaethau Tân ynglŷn â chynlluniau penodol i fynd i'r afael â phroblemau, fel ymdrin â galwadau diangen â bwriad da a galwadau diangen oherwydd cyfarpar. Dylai Awdurdodau Tân ac Achub Cymru fanteisio ar y rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod er mwyn edrych ar ffyrdd amgen o fynd i'r afael â phroblem galwadau diangen parhaus. Dylid edrych ar ddulliau newydd ac arloesol o fynd i'r afael â galwadau diangen, gan nodi arferion arbennig a'u rhoi ar waith os yw'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod modd newid a gwella'r sefyllfa. Mae tystiolaeth gref o ostyngiadau sylweddol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Mae'r siart isod yn dangos canran y gostyngiad mewn galwadau diangen yn y 10 mlynedd blaenorol. Mae'r siart yn dangos i ba raddau y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad mewn galwadau diangen. Er bod Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi llwyddo i sicrhau rhywfaint o ostyngiad yn nifer y galwadau diangen, mae'r gostyngiad tua hanner yr hyn a welwyd mewn lleoedd eraill.

# Gostyngiad mewn galwadau diangen, 2004/5-2013/14




Ffynhonnell: Ystadegau Tân Cymunedau a Llywodraeth Leol; StatsCymru

# Amser Gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru, yn gwbl briodol, yn rhoi mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â'r broblem hon ac mae'n ceisio gwella perfformiad. Wrth wneud hyn mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad cyfrifoldeb y Gwasanaethau Tân ac Achub yn unig yw mynd i'r afael â galwadau diangen. Mae angen i'r Llywodraeth a deiliaid/perchnogion eiddo weithio gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub a'u helpu i fynd i'r afael â'r problemau.

Mae gan bob un o Wasanaethau Tân ac Achub Cymru adran diogelu rhag tân sefydledig â thimau ymroddedig sy'n gweithio'n galed er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â galwadau diangen, a rhaid canmol y gwaith hwn.

Bwriad yr adroddiad hwn yw codi ymwybyddiaeth ymhlith grŵp ehangach o randdeiliaid yng Nghymru a chynnig dewisiadau amrywiol a allai, pe baent yn cael eu cyflwyno, wneud gwahaniaeth go iawn i nifer presennol y galwadau diangen.

Mae mynd i'r afael â galwadau diangen yng Nghymru'n un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn nogfen y Fframwaith Cenedlaethol o 2012 ymlaen[8]. Yn ogystal â nodi disgwyliadau'r Llywodraeth drwy'r Fframwaith Cenedlaethol, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn amlinellu dangosyddion perfformiad statudol ar gyfer galwadau diangen a bydd yn dal i wneud hynny yn y dyfodol. Mae'r dangosyddion hyn yn berthnasol i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ac adroddir arnynt yn flynyddol.

## Achos a Lleoliad Galwadau Diangen

Er mwyn mynd i'r afael â phroblem galwadau diangen yn effeithiol mae angen i ni ddeall mwy ynglŷn â beth yw'r prif achosion a ble maent yn digwydd amlaf.

Mae'r data'n dangos mai galwadau diangen sy'n cael eu hachosi gan offer larymau tân yw'r prif achos. Yn yr achosion hyn, yn amlach na pheidio, larymau sy'n deillio o system awtomatig yw'r rhai arwyddocaol. Yn syml iawn, mae hon yn system lle mae synwyryddion yn cael eu gosod mewn adeilad ac yn cael eu cysylltu â system ganolog. Pan fydd synhwyrydd yn cael ei ysgogi, drwy fwg neu drwy ddull arall, anfonir rhybudd. Yn y rhan fwyaf o'r achosion mae'r synhwyrydd wedi cael ei ysgogi oherwydd diffyg ar y cyfarpar, neu wall dynol, er enghraifft defnyddio tostiwr o dan synhwyrydd mwg.



Os ydym am newid y sefyllfa, mae'n bwysig lleihau nifer y problemau mawr a gweithredu yn unol â hynny. Mae hyn yn golygu canolbwyntio ar brif achos y rhybuddion hyn: galwadau **oherwydd cyfarpar**.

Roedd cyfanswm y galwadau diangen (heb gynnwys galwadau maleisus) yr ymatebwyd iddynt gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn 2013/14 yn 14,655. Er hyn, er mwyn canolbwyntio ar y broblem mae'n bwysig deall o ble mae'r rhan fwyaf o'r galwadau diangen oherwydd cyfarpar yn deillio, fel bod modd datblygu strategaethau lleihau.

Dengys dadansoddiad pellach o ddata 2013/14 mai galwadau diangen mewn 'adeiladau eraill' yw bron i hanner y galwadau diangen hyn, a bod mwy o alwadau diangen yn cael eu hachosi ganddynt hwy na chan y lleoliadau eraill a restrir yn y tabl.


| Lleoliad | Galwadau Diangen (14,655) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Anheddau Preifat | 4,936 | 33.7 |
| Adeiladau Eraill | 6,944 | 47.4 |
| Awyr Agored Arall | 2,375 | 16.2 |
| Cerbydau Ffyrdd | 400 | 2.7 |

Sylwer: Mae adeiladau eraill yn cynnwys eiddo ar wahân i eiddo domestig preifat er enghraifft siopau, swyddfeydd a ffatrïoedd.

[8] Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub o 2012 Ymlaen 3.32

Mae nifer o ddewisiadau ar gael i'r Gwasanaethau Tân i'w helpu i leihau nifer y galwadau diangen, a chyfeirir at rai ohonynt yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Er hyn, mae'n amlwg bod galwadau diangen yn fwy cyffredin mewn rhai sectorau. O ganlyniad, mae angen sicrhau bod y sectorau cywir yn cael eu nodi yn y sector 'adeiladau eraill' ac yna'n cael eu targedu'n briodol.

## Galwadau Diangen oherwydd Cyfarpar yn ôl math o adeilad 2013/14




Mae'r siart yn dangos dau gategori o 'adeiladau eraill', sef 'adeiladau preswyl eraill' ac 'adeiladau dibreswyl'. O'r ddau gategori, yr adeiladau dibreswyl sydd â'r nifer mwyaf o bell ffordd, felly dylent fod o ddiddordeb arbennig wrth dargedu lleihad mewn galwadau diangen.

Mae'r tabl isod yn cynnwys diffiniadau ar gyfer adeiladau preswyl eraill ac adeiladau dibreswyl[9]. Nid yw'r golofn ar y dde yn rhestr lawn o'r holl eiddo a nodwyd yn System Gofnodi Digwyddiadau'r Gwasanaeth Tân.

| | |
|---|---|
| Adeiladau Preswyl Eraill | Yn cynnwys – Llety mewn tŷ preifat, hostel, cartrefi gofal preswyl, tai gwarchod. |
| Adeiladau Dibreswyl | Yn cynnwys – Swyddfeydd, Manwerthu, Unedau Diwydiannol, Warysau, cyfleusterau Addysg. |

[9] IRS Taxonomy Lists, Cyhoeddiad gan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol 2012

Dangosir nifer y galwadau diangen mewn adeiladau dibreswyl yn ystod 2013/14 yn y siart gylch (segment c); y gyfran fwyaf yw 5124[10], Dadansoddir hyn gan y Gwasanaeth Tân fel a ganlyn:

- GTA Gogledd Cymru 975 (19%).
- GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru 1285 (25%).
- GTA De Cymru 2864 (56%).

Mae nifer o resymau dros yr amrywiad eang. Bydd demograffeg pob ardal Gwasanaeth Tân yn wahanol. Er mwyn targedu adnoddau'n effeithiol, dylai'r Gwasanaeth Tân ddeall yn iawn beth yw'r eiddo dan sylw a hefyd beth yw'r prif achosion fel bod modd ystyried atebion priodol.

## Targedu'r Prif Droseddwyr

Yn ystod 2013/14 cafwyd cyfanswm o 9,802 o alwadau diangen a oedd wedi'u hachosi gan gyfarpar. O'r galwadau diangen hyn, roedd 3,347 mewn anheddau preifat a 1,331 mewn adeiladau preswyl eraill. Fodd bynnag roedd y gyfran fwyaf, 5,124 (52%) yn gysylltiedig ag adeiladau 'dibreswyl'[11]. O graffu'n fanylach ar y data, gwelir tri maes penodol yn y categori 'adeiladau eraill', sef:

- ysbytai a gofal meddygol;
- prifysgolion/addysg; a
- manwerthu.

Deiliaid adeiladau a'r Gwasanaeth Tân sy'n bennaf gyfrifol am leihau galwadau diangen. Er hyn, mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae drwy godi ymwybyddiaeth o'r mater a hyrwyddo camau gweithredu, yn enwedig mewn cysylltiad ag adeiladau sector cyhoeddus.

[10] Ffynhonnell: StatsCymru/cais data KAS/galwadau diangen yn ôl math o adeilad (data IRS) 2012/13 – 2013/14
[11] Ffynhonnell: StatsCymru/galwadau diangen yn ôl rheswm/blwyddyn ariannol 2013/14

# Gwneud i Newid Ddigwydd

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadl gref dros newid. Nid yw nifer y galwadau diangen y mae Gwasanaethau Tân Cymru'n ymateb iddynt wedi lleihau i'r un graddau â mathau eraill o ddigwyddiadau ac mae angen gwneud rhywbeth er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'r dirywiad economaidd a'r mesurau llymder presennol yn golygu bod angen i bob corff sector cyhoeddus wneud gwell defnydd o'i adnoddau a gwneud y gorau o'i asedau lle bynnag y bo modd. Mae nifer y galwadau diangen yng Nghymru'n dal yn uchel o'i gymharu â mathau eraill o ddigwyddiadau ac mae angen ei leihau ar gyfradd debyg. Ni allwn anwybyddu'r effeithiau cysylltiedig o ran costau ac amser, a bydd camau unioni er mwyn lleihau effaith galwadau diangen yn dangos gwelliant parhaus a gwerth am arian yn glir.

Er mwyn sicrhau perchnogaeth ar y cyd rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â hyn weithio gyda'i gilydd. Rhaid i'r Gwasanaethau Tân ddal i gryfhau partneriaethau â safleoedd sydd â niferoedd uchel o alwadau diangen, gan fonitro'r galwadau'n gyson a chymharu eu hunain ag eraill er mwyn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol a herio'n gadarn os oes problemau'n bodoli o hyd. Os oes angen, dylai'r Gwasanaethau Tân ystyried cymryd camau priodol er mwyn cywiro arferion rheoli gwael yn y safleoedd hyn.




Mae gan y sawl sy'n gyfrifol am ddiogelwch rhag tân ar y safle rôl sylfaenol i'w chwarae. Mae nifer o gamau y gall personau cyfrifol eu cymryd er mwyn lleihau nifer y galwadau diangen, gan gynnwys sefydlu cysylltiadau cadarn â swyddogion amddiffyn rhag tân y Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn deall y problemau gyda'i gilydd a chytuno ar fesurau rheoli digonol.

Mae gan y sawl sy'n gyfrifol am ddiogelwch rhag tân ar safle (y person cyfrifol) ddyletswydd hefyd i fonitro achosion galwadau diangen a chymryd camau a allai gynnwys adleoli cyfarpar larymau tân, codi ymwybyddiaeth ymhlith deiliaid ac adnewyddu neu gryfhau'r protocolau galw presennol â chanolfannau derbyn rhybudd. Dim ond ychydig o'r dewisiadau sydd ar gael i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ac i safleoedd yw'r rhain, a byddant yn cael eu trafod yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Nid yw'r ateb i'r broblem hon yn nwylo un corff unigol o reidrwydd, a thrwy gydberchnogaeth mae cyfle realistig i wneud gwahaniaeth mawr a lleihau nifer y galwadau diangen.

Mae rheoliadau cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob eiddo masnachol dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch rhag tân. Mae angen llawer o bobl i sicrhau bod hyn yn digwydd:

- Perchennog/Deiliad yr Adeilad – dynodi rhywun i fod yn gyfrifol a gwneud yn siŵr ei fod yn cael hyfforddiant digonol.

- Y Cwmni Larymau Tân – gosod a chynnal a chadw'r system a gwneud argymhellion er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohoni.

- Yr Asesydd Risg Tân – gwneud argymhellion ynglŷn ag amddiffyn rhag tân yn gyffredinol, yn ogystal â'r system larwm.
- Y Gwasanaeth Tân ac Achub – gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn atal galwadau diangen.

## Yr Allwedd i Atal Ymatebion Diangen yng Nghymru

Mae nifer o ddewisiadau ar gael i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac i ddeiliaid eiddo â larymau tân wedi'u gosod ynddynt er mwyn lleihau nifer y galwadau diangen. Gallai'r dewisiadau hyn gynnwys unrhyw rai o'r canlynol, neu bob un ohonynt:

- Sicrhau bod systemau larwm tân yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol, a thrwy hynny leihau nifer yr achosion o gyfarpar diffygiol.
- Datblygu partneriaeth rhwng perchennog/deiliad yr adeilad a chwmnïau larymau tân gan godi ymwybyddiaeth a gwella dyluniad, gosodiad a threfniadau rheoli a chynnal a chadw systemau synwyryddion tân.
- Prosesau cadarn mewn canolfannau derbyn rhybuddion a all ddidoli ysgogyddion larymau a diddymu'r hysbysiad awtomatig i ganolfannau rheoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub oni bai fod tân yn cael ei gadarnhau.
- Trefniadau didoli galwadau gan weithredwyr rheoli Tân ac Achub yn sicrhau bod pob galwad nad yw'n cael ei chefnogi gan alwad argyfwng 999 yn cael ei herio'n gadarn.
- Gweithredu dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 mewn cysylltiad â safleoedd â systemau larwm sy'n achosi galwadau diangen dro ar ôl tro.
- Lleihau neu atal ymateb gan y Gwasanaeth Tân ac Achub i larymau awtomatig nad ydynt yn cael eu cefnogi gan alwadau argyfwng 999.
- Awdurdodau Tân ac Achub yn codi tâl ar safleoedd sy'n cael eu nodi fel troseddwyr cyson.
- Gwasanaethau Tân ac Achub yn cyflwyno ffyrdd newydd ac arloesol o ymateb i ddigwyddiadau sy'n golygu nad yw injan dân yn cael ei hanfon. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, un cynghorydd diogelwch rhag tân yn ymateb i rybudd mewn car neu fan, ac yn cael ei gefnogi gan injan dân dim ond os ceir cadarnhad bod tân ar y safle.

# Enghreifftiau o Gynlluniau Galwadau Diangen

Bydd rhan nesaf yr adroddiad hwn yn amlinellu dewisiadau amrywiol a allai gael eu hystyried gan Wasanaethau Tân fel rhan o'u strategaethau lleihau. Gall y Gwasanaeth Tân, deiliaid adeiladau neu'r naill a'r llall weithredu'r dewisiadau hyn.

## Dewisiadau ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub

### Gweithredu dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Gall Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried defnyddio pwerau rheoleiddio a gorfodi i ymdrin â throseddwyr cyson. Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub bwerau statudol i orfodi deddfwriaeth diogelwch tân. Os canfyddir perfformiad anfoddhaol ag agweddau ar ddiogelwch tân, er enghraifft y system larymau tân, a bod hynny'n amharu ar ddiogelwch pobl sydd yn yr adeilad, dylid ystyried ymyrryd. Gallai'r dewisiadau sydd ar gael i'r Awdurdodau Tân ac Achub gynnwys:

- Cynnal archwiliad o'r safle dan y Gorchymyn Diogelwch Tân.
- Darparu cyngor yn unol â'r Cod Rheoleiddwyr.
- Rhoi cyngor anstatudol (hysbysiad ynglŷn â diffygion).
- Dechrau camau gorfodi, er enghraifft hysbysiad gorfodi.
- Erlyn.

### Lleihau Ymatebion gan y Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae llawer iawn o wybodaeth ar gael am alwadau diangen y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymdrin â hwy. Gall craffu ar ddata fod o gymorth er mwyn canfod safleoedd y gellir eu categoreiddio fel troseddwyr cyson, ac mewn sefyllfaoedd o'r fath dylai Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried a yw'r risg o fynd i ddigwyddiad yn fwy na'r risg o beidio â mynd iddo.

Gall criwiau tân fod allan am gyfnodau sylweddol yn ymateb i alwadau diangen, ac mae hynny'n golygu nad yw'r criwiau hyn ar gael ar unwaith i ymateb i ddigwyddiadau eraill lle mae bywydau mewn perygl. Gallai dull ymateb sy'n seiliedig ar asesiad risg, a allai olygu ymateb i lai o alwadau neu beidio ag ymateb oni bai fod tân yn cael ei gadarnhau, sicrhau nad yw criwiau'n cael eu hanfon i safleoedd y gwyddys eu bod yn droseddwyr cyson oni bai fod tân wedi cael ei gadarnhau, a rhoddir y cyfrifoldeb felly ar ysgwyddau'r person cyfrifol ar y safle.

Wrth gwrs, rhaid cydnabod bod elfen o risg ynghlwm wrth ddull gweithredu cyffredinol sy'n seiliedig ar lai o ymatebion neu beidio ag ymateb i alwadau diangen. Mae'n debyg y byddai dull gweithredu sy'n seiliedig ar asesiad risg yn trin safleoedd lle mae perygl i fywydau, er enghraifft mewn ysbytai a chyfleusterau gofal preswyl, fel achosion arbennig. Yn yr achosion hyn, yn hytrach na dim ymateb gan y Gwasanaeth Tân, gellid ystyried llai o ymatebion, gan ystyried yr amser o'r dydd a nifer y staff sy'n gweithio ar y safle.

Dylid pwysleisio mai mater i Awdurdodau Tân ac Achub unigol yw polisïau ymateb Gwasanaethau Tân a bod angen ystyried nifer o ffactorau cysylltiedig.

Un ffordd o egluro sut mae'r broses hon yn gweithio yw drwy edrych ar Wasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr sydd wedi cyflwyno polisi diwygiedig sy'n nodi na fyddant mwyach yn ymateb i alwadau gan ganolfannau derbyn rhybuddion rhwng 08:00 a 20:00 oni bai fod y safle wedi'i ddynodi'n adeilad lle byddai bywydau mewn perygl. Yn ystod gweddill y dydd byddant yn ymateb i bob galwad a dderbynnir ond â lefel briodol o ymateb gan ddibynnu ar y math o eiddo.

**Astudiaeth Achos 1:** Polisi diwygiedig Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Larymau Tân Awtomatig. Roedd y Gwasanaeth yn ymateb i dros 2,000 o alwadau larwm tân diangen bob blwyddyn, a chanfuwyd bod 96%-97% o'r rhain yn alwadau diangen, h.y. heb dân. Bu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru'n ystyried cynnig yn ddiweddar i gyflwyno dull gwahanol o ymateb. Bydd y dull ymateb diwygiedig yn sicrhau bod y Gwasanaeth Tân yn ymateb bob amser pan geir cadarnhad bod tân ar y safle. Ystyrir meini prawf penodol fel rhan o'r dull gweithredu diwygiedig er mwyn ystyried gwahanol lefelau risg rhwng, er enghraifft, tai gwarchod ac eiddo masnachol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub arall, Swydd Warwick, wedi penderfynu na fydd yn ymateb i rybuddion larymau tân awtomatig gan systemau synwyryddion tân mewn adeiladau annomestig rhwng 07:00 a 20:00 oni bai fod y rhybudd wedi'i ymchwilio a bod cadarnhad wedi'i roi bod tân yn yr eiddo.

## Codi Tâl am Alw Allan

Cyflwynodd Deddf Lleoliaeth 2011 bwerau ychwanegol i Awdurdodau Tân ac Achub drwy ddiwygio Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Yn fwyaf arbennig, mae Adran 18A o Ddeddf 2004 yn rhoi pŵer i'r Awdurdodau Tân ac Achub godi tâl ar berson am unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod yn y Deyrnas Unedig neu ar y môr neu o dan y môr, ac sy'n cael eu cymryd ar gyfer diben nad yw'n un masnachol. Gallai hyn gynnwys ymateb i alwadau diangen.

Mae Adran 18C yn nodi achosion lle gellir codi tâl am ymateb i adroddiad ynglŷn â thân ac ati, ac mae'n nodi i bob pwrpas na all Awdurdod Tân ac Achub godi tâl am ymateb i adroddiad ynglŷn â thân oni bai:

(a) bod yr adroddiad yn cyfeirio at dân mewn eiddo nad yw'n eiddo domestig;

(b) bod yr adroddiad yn un anwir;

(c) bod yr adroddiad yn cael ei wneud o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i ddiffyg dro ar ôl tro ar gyfarpar rhybuddio, neu gyfarpar rhybuddio sydd wedi'u gosod yn anghywir; a

(d) bod problem barhaus ag adroddiadau anwir am dân ar y safle sy'n cael eu gwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i ddiffyg ar gyfarpar rhybuddio dan reolaeth gyffredin neu gyfarpar rhybuddio sydd wedi'u gosod yn anghywir.

Felly, cyn belled bod Awdurdodau Tân ac Achub Cymru wedi cynnal yr ymgynghoriad priodol, a bod y meini prawf yn adran 18 o Ddeddf 2004 wedi cael eu bodloni, gall Awdurdodau godi tâl am gamau a gymerir wrth ymateb i alwadau diangen. Mae'r syniad o Awdurdod Tân ac Achub yn codi tâl am ymateb i alwadau diangen yn un y gellir ei gyfiawnhau, ac mae'n gyson â'r egwyddor y dylai perchnogion a deiliaid eiddo annomestig weithredu mewn modd cyfrifol er mwyn cynnal diogelwch a lleihau risg.

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth yn darparu'r mecanweithiau angenrheidiol i Awdurdodau Tân ac Achub gymryd 'mesurau priodol' os yw ymdrechion eraill heb gael effaith. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub fod wedi sefydlu'r ystod briodol o ganllawiau polisi fel bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am eiddo sy'n cael eu heffeithio yn gwbl ymwybodol o baramedrau polisïau o'r fath.

**Astudiaeth Achos 2:** Yn 2012/13 ymatebodd Brigâd Dân Llundain i dros 39,000 o alwadau diangen. Dangosodd adolygiad o ddata'r digwyddiadau bod 26 safle wedi galw'r Frigâd allan dros 50 o weithiau yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mis Ionawr 2014 cyflwynodd y Frigâd bolisi diwygiedig a gyflwynodd dâl o £295 + TAW am alwadau diangen parhaus a oedd yn cael eu cynhyrchu gan systemau larymau tân awtomatig a systemau synwyryddion tân. Nid yw'r polisi'n berthnasol i eiddo domestig neu gartrefi gofal.


Bydd y Frigâd yn ceisio adennill costau ar ôl cyrraedd y pwynt lle mae'n ymateb i'r ddegfed alwad ddiangen yn yr un eiddo o fewn cyfnod o ddeuddeng mis ac am bob tro y mae'n cael ei galw allan ar ôl hynny o fewn yr un cyfnod.

## Dewisiadau ar gyfer Perchnogion/Deiliaid Adeiladau

### Cynnal Systemau Larwm Tân

Mae galwadau diangen oherwydd cyfarpar wedi cael eu nodi fel y cyfrannwr mwyaf tuag at nifer uchel y galwadau diangen mewn adeiladau. Er mwyn deall sut y gall cynlluniau yn y maes hwn weithio, mae'n bwysig cael gwybodaeth sylfaenol ynglŷn â sut y mae'r systemau hyn yn gweithio fel arfer.

### Proses ar gyfer Ysgogi Larymau Awtomatig i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub



**Pan fydd system larwm tân yn cael ei hysgogi mae dau beth yn tueddu i ddigwydd:**

Yn gyntaf, mae larwm gweledol/clywedol yn cael ei ysgogi ac mae'n rhybuddio pobl sydd yn yr adeilad y gallai tân fod yno; yn ail, anfonir rhybudd i'r gwasanaeth tân ac achub drwy ganolfan derbyn rhybuddion trydydd parti. Y ganolfan derbyn rhybuddion sy'n cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn tynnu sylw at y perygl.

Mae elfen gyntaf larwm tân sy'n rhybuddio pobl sydd yn yr adeilad ynglŷn â'r posibilrwydd o dân yn yr eiddo'n gwbl briodol. Mae'r potensial i leihau effaith galwadau diangen yn yr ail elfen, sef yr hysbysiad i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac unrhyw ymateb dilynol gan y Gwasanaeth Tân i'r eiddo sy'n cael ei effeithio. Fel y nodwyd, mae nifer o ddewisiadau ar gael i'r Gwasanaethau Tân ac Achub, drwy weithio mewn partneriaeth â chanolfannau derbyn rhybuddion er mwyn cymryd camau i ddatrys y materion hyn.

Mae gwasanaethu a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn elfen bwysig o'r broses o gyfyngu ar nifer y galwadau diangen a allai ddigwydd â system.

Mae systemau synwyryddion tân a larymau tân ar gyfer adeiladau yn nodwedd bwysig o ddiogelwch rhag tân. Ceir Codau Ymarfer ar gyfer dylunio, gosod, comisiynu a chynnal a chadw, ac maent yn cynnwys argymhellion ar gyfer archwilio a phrofi systemau bob hyn a hyn.

Dylai profion ar gyfer synwyryddion (pob math) sicrhau bod cynnyrch hylosg yn gallu mynd drwodd i siambr synhwyro'r synhwyrydd, a dylai'r gwaith profi hwn gael ei wneud gan berson cymwys. Os oes profion o'r fath yn cael eu gwneud, dylid cymryd camau i sicrhau bod y ganolfan derbyn rhybuddion yn cael ei hysbysu er mwyn lleihau'r risg o ysgogi'r larwm a defnyddio adnoddau'r Gwasanaeth Tân.

Dylai'r cyfnod rhwng ymweliadau archwilio a gwasanaethu dilynol fod yn seiliedig ar asesiad risg, gan ystyried y math o system a osodwyd, yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo a ffactorau eraill a allai effeithio ar weithrediad hirdymor y system.

**Astudiaeth Achos 3:** Partneriaeth Arloesol i Ymchwilio i Alwadau Diangen.
Mae Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban (SFRS) yn ymuno â nifer o bartneriaid, gan gynnwys Cymdeithas y Diwydiant Tân (FIA), Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI), Cymdeithas Cyfarpar Tân Prydain (BAFE), y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) a grŵp CBRE er mwyn cymryd rhan mewn prosiect arloesol a fydd yn ymchwilio i alwadau diangen. Mae SFRS wedi ymateb i dros 100,000 o alwadau diangen dros y 3 blynedd diwethaf, sy'n cyfateb i dros 40% o'r holl ddigwyddiadau yr ymatebwyd iddynt. Penderfynodd y Gwasanaeth fod yn rhan o'r bartneriaeth newydd hon i ymchwilio i alwadau diangen, a hyrwyddo manteision systemau larwm awtomatig, a bydd swyddogion dynodedig o SFRS yn cael eu secondio i weithio'n uniongyrchol ochr yn ochr ag arbenigwyr o'r diwydiant larymau tân i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a chynnig atebion.

## Addasu Systemau Larymau Tân

Mae system larymau tân yn cynnwys synwyryddion tân a phanel rheoli, y gellir eu haddasu er mwyn lleihau'r siawns o alwadau diangen. Dylai eiddo gael y system iawn ar gyfer anghenion y sefydliad.

## Synwyryddion a Phwyntiau Galw â Llaw

Synwyryddion tân a phwyntiau galw â llaw yw rheng flaen diogelwch rhag tân mewn adeilad; byddant yn rhybuddio pobl sydd yn yr adeilad bod tân yno.

Mae ychydig o bethau pwysig y dylai perchnogion adeiladau eu hystyried wrth ddewis synwyryddion tân:

- dewis y synhwyrydd iawn ar gyfer y lleoliad/defnydd;
- sicrhau bod synwyryddion yn cael eu lleoli mewn lleoedd call;
- gwneud yn siŵr na all pwyntiau galw â llaw gael eu taro mewn camgymeriad; ac
- ystyried amrywio lefel perfformiad synwyryddion.

Mae'n hollbwysig bod systemau larymau tân yn cael eu cynnal a'u cadw mewn ffordd addas a digonol ac yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd gan drydydd parti. Bydd hyn yn sicrhau bod y system yn gweithio yn unol â'i phwrpas arfaethedig, a bydd yn lleihau'r posibilrwydd y bydd diffygion yn codi â'r system. Mewn rhai achosion gosod synwyryddion gwres lle mae ysgogiadau cyson yn digwydd, er enghraifft wrth goginio a defnyddio'r tostiwr.

## Paneli Rheoli Larymau Tân

Mae'r panel rheoli'n monitro'r synwyryddion sy'n cael eu gosod mewn adeilad. Mae'n anfon rhybudd os synhwyrir tân ac yn dweud ym mha ran o'r adeilad y mae'r broblem. Gall llawer o baneli 'ddidoli' rhybuddion drwy:

Analluogi – diffodd rhannau o'r system ar adegau penodol o'r dydd neu pan/os bydd gweithgareddau sy'n debygol o achosi galwad ddiangen yn cael eu cyflawni (er enghraifft drilio neu sandio).

Oedi – gellir rhaglennu'r system i oedi er mwyn rhoi amser i'r warden tân archwilio'r ardal cyn canu'r larwm a galw'r frigâd.

**Astudiaeth Achos 4:** Ym Mhrifysgol Aberystwyth roedd tua 400 o larymau tân yn cael eu hysgogi'n ddiangen bob blwyddyn, ac roedd hynny'n golygu bod y Gwasanaeth Tân ac Achub ar y campws bron bob diwrnod. Gwyddent fod y rhan fwyaf o'r ysgogiadau hyn yn cael eu hachosi gan bethau fel llwch, stêm o degelli a chwistrelli aerosol.

Er mwyn ceisio atal y nifer aruthrol hwn o ymatebion i alwadau diangen penderfynodd y Brifysgol weithio gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub lleol ac ymchwilio i larymau tân. Yn dilyn hynny cyflwynwyd system er mwyn sicrhau, pan fyddai larwm yn canu, bod unigolyn wedi'i hyfforddi'n bwrw golwg ar yr ardal lle'r oedd y larwm wedi'i ysgogi. Pe canfyddid nad oedd tân, ac mai rhybudd diangen oedd hwn, byddai'r alwad i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei chanslo. Pe bai'r sawl sy'n ymchwilio heb ymateb o fewn 5 munud gofynnid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymateb yn awtomatig.

Mwy nag un Rhybudd – gellir rhaglennu'r panel rheoli i aros nes bydd mwy nag un rhybudd wedi'i anfon (o wahanol synwyryddion neu o amlsynhwyrydd) cyn canu'r larwm.

Gall Gweithredwyr Rheoli Tân ac Achub sy'n Didoli Galwadau fod yn ffactor pwysig hefyd er mwyn lleihau baich galwadau diangen. Pan fydd gweithredwr rheoli'n derbyn galwad gall cwestiynau pendant ynglŷn â'r sefyllfa sydd wedi arwain at y rhybudd, mewn llawer o achosion, roi digon o wybodaeth i'r gweithredwr i'w alluogi i benderfynu a ddylid anfon injan dân ai peidio.

Enghraifft dda o'r herio hwn yw pan fo gweithredwr rheoli'n gofyn cwestiynau ynglŷn ag achos larwm ac yn canfod mai'r system oedd yn cael ei phrofi. Ar ôl cadarnhau mai methiant i hysbysu'r ganolfan derbyn rhybuddion oedd yr achos gall y gweithredwr rheoli ddewis peidio â galw injan dân a chanslo'r alwad.

**Astudiaeth Achos 5:** Cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Rhydychen ei nodi fel un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub â'r perfformiad gwaethaf o ran nifer y rhybuddion tân diangen a dderbynnid gan systemau larymau tân awtomatig o'i gymharu â chyfanswm y boblogaeth. Cyflwynodd Swydd Rhydychen gynllun rhybuddion tân diangen newydd yn 2003 a gwelwyd canlyniadau ac arbedion trawiadol o ganlyniad i gwestiynu galwadau. Mae'r arbedion wedi'u hailfuddsoddi i gefnogi gweithgaredd ataliol.

## Dewisiadau Cydweithredol

### Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Datblygu Partneriaethau

Mae nifer y galwadau diangen yr ymdrinnir â hwy gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru'n dangos bod nifer fawr o alwadau'n cael eu cynhyrchu gan systemau awtomatig, ac mae llawer ohonynt mewn eiddo yn y sector cyhoeddus. Cydnabyddir felly bod angen dull gweithredu cydweithredol er mwyn lleihau nifer yr ymatebion, lle mae'r eiddo sy'n cynhyrchu galwadau diangen dro ar ôl tro'n deall maint y broblem, yn gweithredu er mwyn lleihau nifer yr ysgogiadau ac yn cyflwyno systemau a phrosesau er mwyn sicrhau nad yw achosion o'r fath yn digwydd eto.

**Astudiaeth Achos 6:** Mae Awdurdod Tân ac Achub Swydd Buckingham a Milton Keynes wedi gweld canlyniadau cadarnhaol iawn ar ôl cyflwyno rôl benodol i ymchwilio i rybuddion tân diangen drwy weithio mewn partneriaeth ag eiddo sy'n troseddu.

Mae gweithgaredd a gwblhawyd yn ddiweddar wedi gweld canlyniad cadarnhaol â gostyngiad nodedig o **45%** yn nifer y rhybuddion larymau tân yn ystod y saith mlynedd blaenorol.

Yn y bôn, y dull gweithredu a ddefnyddiwyd yw adolygu data'r system cofnodi digwyddiadau (IRS) er mwyn nodi'r prif droseddwyr yng nghyswllt galwadau diangen. Yna mae'r Swyddog yn cysylltu â'r rhai sy'n gyfrifol yn yr eiddo er mwyn nodi'r achosion a cheisio cael atebion. Ar ôl rhoi mesurau cywiro ar waith, mae'n bosibl monitro galwadau dilynol yn gyson ac yn gywir.

## Dull Partneriaeth

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru'n gweithio mewn cysylltiad agos â rhanddeiliaid gan ddarparu cyngor ynglŷn â diogelwch rhag tân a gorfodi Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Dylid cryfhau'r partneriaethau presennol a dylid ceisio mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â galwadau diangen ar y cyd. Ar ôl cael cyngor gan y Gwasanaethau Tân ac Achub, mae gan y rhai sy'n gyfrifol am reoli diogelwch tân mewn eiddo sy'n cael ei effeithio ddyletswydd i sicrhau bod staff yn ymwybodol o achosion cyffredin galwadau diangen a bod camau'n cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r problemau.


Gallai camau i gyflwyno dull o oedi am ychydig cyn gwagu'r adeilad, nes bydd yr ardal sydd wedi'i heffeithio wedi cael ei harchwilio mewn ffordd gydgysylltiedig, fod yn un ffordd o fynd i'r afael â'r broblem. Yn yr achos hwn, os bydd larwm tân yn cael ei ysgogi, bydd rhybudd cael ei ysgogi, a bydd yn arwain at neges glywadwy yn hysbysu pawb sydd yn yr adeilad i aros yn yr adeilad tra bydd person enwebedig yn gwirio'r ardal sydd wedi'i heffeithio. Os oes tân gellir dechrau ar y broses o wagu'r adeilad fel arfer. Fodd bynnag, os canfyddir bod y rhybudd yn un diangen, gellir ailosod y system a gall pawb fynd yn ôl at ei ddyletswyddau. Yn y sefyllfa hon dim ond pan geir cadarnhad bod tân yn yr adeilad yr hysbysir y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac mae'r data'n dangos bod yr achosion hynny'n anghyffredin iawn.

Gall y dull gweithredu hwn weithio'n effeithiol lle mae rhywun yn byw yn yr eiddo. Fodd bynnag, ar gyfer eiddo nad oes pobl yn byw ynddynt, er enghraifft swyddfeydd ac unedau sy'n cau yn ystod y nos, rhaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub perthynol ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar asesiad risg.

## Camau eraill er mwyn Lleihau Galwadau Diangen

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol er mwyn sicrhau gwell cydweithrediad rhwng y tri Awdurdod Tân ac Achub. Mae aelodau'r Pwyllgor wedi gwneud llawer iawn o waith mewn meysydd amrywiol. Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau gwaith ar alwadau diangen ac wedi datblygu ystod o ganlyniadau a adlewyrchwyd yn yr adroddiad[12]. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2011 ac roedd yn nodi nifer o flaenoriaethau allweddol mewn cysylltiad â mynd i'r afael â galwadau diangen.

Yn ogystal â gwaith y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ers blynyddoedd er mwyn mynd i'r afael â galwadau diangen. Mae Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau a chanllawiau, mewn partneriaeth ag arbenigwyr yn y diwydiant, ac maent yn darparu cyngor ac arweiniad rhagorol ynglŷn â sut i leihau nifer y galwadau diangen.www.cfoa.org.uk/download/49412



Mae llawer o Wasanaethau Tân ac Achub y tu allan i Gymru wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant ac arbenigwyr tân ers blynyddoedd er mwyn mynd i'r afael â phroblem galwadau diangen. Mewn rhai ardaloedd mae'r ymdrech hon wedi arwain at ostyngiad sylweddol iawn yn nifer y galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o enghreifftiau o gynlluniau y mae'n werth eu hystyried. Ni ddylid rhoi amcan rhy isel o werth edrych ar feysydd lle gwelir ymarfer arbennig ac efelychu dulliau gweithredu.

[12] Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru, Automatic Fire Alarm Protocol NIC 2013

# Casgliad

Bwriad yr adroddiad hwn oedd edrych ar y materion sy'n gysylltiedig â nifer uchel y galwadau diangen y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymateb iddynt. Mae'r adroddiad wedi dangos bod gostyngiad sylweddol wedi bod yng nghyfanswm y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt gan Wasanaethau Tân ac Achub Cymru, ond bod nifer y galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt wedi aros yn gymharol sefydlog, a bod angen gweithredu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn wedi dangos bod y rhan fwyaf o'r galwadau hyn wedi'u hachosi gan gyfarpar mewn eiddo sy'n cael eu categoreiddio gan offeryn adrodd y Gwasanaeth Tân fel 'adeiladau eraill'. Mae dadansoddiad pellach o'r data wedi nodi mai eiddo Iechyd, Addysg a Manwerthu yw'r cyfranwyr mwyaf o bell ffordd tuag at y galwadau. Er y bydd canolbwyntio ar y meysydd hyn yn golygu bod modd gwneud rhywfaint o gynnydd cadarnhaol, mae'n bwysig sicrhau bod pob rhanddeiliad yn dal yn ymwybodol o'r camau gweithredu eraill y gellir eu cyflwyno ac yn gweithredu er mwyn cywiro perfformiad gwael lle mae'n cael ei nodi. Dylai hon fod yn broses barhaus.

Mae'n amlwg bod y sefyllfa ariannol bresennol yn golygu bod angen ymdrech ar y cyd gan bob un o'r rhanddeiliaid er mwyn lleihau'r galwadau diangen hyn sy'n gostus o safbwynt ariannol yn ogystal ag amser segur i'r Gwasanaethau Tân ac Achub a busnesau fel ei gilydd. Mae Llywodraeth Cymru'n credu'n gryf y gall gweithredu ar y cyd sicrhau'r newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn newid y dull gweithredu presennol yn llwyr a sicrhau gostyngiad sylweddol yn y tymor byr neu ganolig.

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa bresennol a chael dull o sicrhau gwelliant ar y cyd. Rhagwelir y bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid fel hyn yn sbarduno newid ac yn cynorthwyo'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub sydd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi galwadau diangen.

Bydd cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol yn cefnogi bwriadau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â galwadau diangen. Bydd yn cael ei gefnogi gan gyfres o ddangosyddion perfformiad strategol sy'n cynnig her i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ac a fydd yn ysgogi newid.

**Cyfeiriadau'r Astudiaethau Achos:**


1 Eitem Agenda 6, 2il Rhagfyr 2014, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

2 www.london-fire.gov.uk/reducingafas

3 www.fia.uk.com/news

4 Dogfen protocol galwadau diangen Prifysgol Aberystwyth.

5 Adroddiad Adolygiad Cydweithwyr – Sicrwydd Gweithredol, Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Rydychen Medi 2010.

6 The Causes of False Alarms in Buildings, papur briff BRE 2014.

# Argymhellion

1. Dylai Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ystyried sut y gellid gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn ymateb i alwadau larymau tân awtomatig a fyddai'n arwain at fwy o ostyngiad yn nifer y galwadau diangen.

2. Dylai'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol adeiladu ar y gwaith blaenorol ar rybuddion tân diangen a chryfhau'r dull o fynd i'r afael â galwadau diangen a ddefnyddir drwy Gymru gyfan ymhellach.

3. Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu ag aelodau allweddol dylanwadol sy'n gyfrifol am y meysydd hynny sydd yn y categorïau 'troseddwr mwyaf', gwella'r proffil a cheisio sicrhau camau gweithredu wedi'u targedu er mwyn mynd i'r afael â nifer y galwadau diangen.

4. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei hymrwymiad i fynd i'r afael â galwadau diangen drwy'r Fframwaith Cenedlaethol a'r Dangosyddion Perfformiad Strategol a bennwyd.

**Ffynonellau Data:**

Ers mis Ebrill 2009, mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub wedi cyflwyno data digwyddiadau (ynghylch tân, galwadau diangen a Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig) i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol drwy'r System Cofnodi Digwyddiadau (IRS).

Gellir gweld gwybodaeth am y data a gasglwyd drwy system IRS ar wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol: www.gov.uk/government/publications/incident-recording-system-for-fire-and-rescue-authorities

Mae'r data ar alwadau diangen yn seiliedig ar wybodaeth gyfanredol.

Data dros dro yw'r rhai ar gyfer y cyfnod diweddaraf (2013-14). Er bod y data yn gywir pan gawsant eu tynnu o IRS, mae'r gronfa ddata yn cael ei diweddaru drwy gydol y flwyddyn a gallai hyn arwain at ddata diwygiedig yn ymddangos mewn cyhoeddiadau dilynol.

Gellir cael rhagor o ddata ar alwadau diangen a thanau ar wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru: https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Community-Safety/Fire-Incidents

Awdur yr Adroddiad: Leon Parkes
Cynghorydd Tân ac Achub Cynorthwyol Cymru
Llywodraeth Cymru